# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13684) yn:

http://senedd.tv/cy/13684

## 186

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.28

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 14.45

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Papur gwyn ar Fil arfaethedig ar egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu amgylcheddol, a thargedau bioamrywiaeth

Dechreuodd yr eitem am 15.40

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Diwrnod Cofio'r Holocost

Dechreuodd yr eitem am 16.14

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Blas Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.06

## 7 Dadl: Adroddiad Blynyddol 2022-23 Comisiynydd y Gymraeg

Dechreuodd yr eitem am 17.38

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM8463** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2022-23.

Adroddiad Blynyddol: 2022-2023 Comisiynydd y Gymraeg

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gwaith y Comisiynydd i annog sefydliadau yn y sector preifat, megis y sector bancio, i ddefnyddio'r Gymraeg ar sail anstatudol.

Yn cytuno y dylai banciau fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg statudol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:**

**NDM8463** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2022-23.

Adroddiad Blynyddol: 2022-2023 Comisiynydd y Gymraeg

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## Derbyniwyd y cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar eitemau 8 a 9 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

## 8 Egwyddorion cyffredinol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Dechreuodd yr eitem am 18.03

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM8464** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Gosodwyd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd ar 18 Medi 2023.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) gerbron y Senedd ar 19 Ionawr 2024.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ymateb gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio

Ymateb gan y Pwyllgor Busnes i adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio

Ymateb gan Gomisiwn y Senedd i adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio

Ymateb gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd i adroddiad y Pwyllgor Biliau Diwygio

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 14 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 9 Y penderfyniad ariannol ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Dechreuodd yr eitem am 18.03

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM8465** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod Senedd Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 14 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 10 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 19.33

Daeth y cyfarfod i ben am 19.35

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 31 Ionawr 2024**